Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Adolygiad Statudol o Reoliadau Anafiadau Atchwip 2021

## Adroddiad ac Argymhellion yr Arglwydd Ganghellor

21 Tachwedd 2024

Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Adolygiad Statudol o Reoliadau Anafiadau Atchwip 2021

## Adroddiad ac Argymhellion yr Arglwydd Ganghellor

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol â Rhan 1, Adran 4 o Ddeddf Atebolrwydd Sifil 2018

21 Tachwedd 2024

© Hawlfraint y Goron 2024

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle y nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint berthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn https://www.gov.uk/government/publications/whiplash-reform-programme-information-and-faq

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn whiplash-reform-team@justice.gov.uk.

ISBN 978-1-5286-4968-1

E03136267 11/24

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o ffeibrau wedi'u hailgylchu

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan HH Associates Ltd. ar ran
Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

# Cynnwys

**Rhagair** 3

**Crynodeb Gweithredol** 4

**Cyflwyniad** 5

**Cefndir** 7

Y Rhaglen Ddiwygio ar gyfer Anafiadau Atchwip 7

Y broses cyn y diwygiadau 7

Y tariff atchwip 8

Cynnydd i Ffioedd Barnwrol 9

Adolygiad cynnar o'r tariff 9

Tystiolaeth feddygol briodol ar gyfer setlo hawliad anaf personol sy'n gysylltiedig ag atchwip 10

**Cwmpas yr Adolygiad hwn** 11

Gofynion deddfwriaethol 11

Tariff Atchwip – Tystiolaeth a ffynonellau data 12

**Dadansoddiad o Ddata ac Ymatebion i'r Alwad am Dystiolaeth gan Randdeiliaid** 14

Strwythur ac elfennau'r tariff 14

Newidiadau ers gweithredu a ffactorau ehangach eraill 19

Hawliadau Anafiadau Cymysg 22

**Chwyddiant** 24

**Crynodeb o benderfyniadau'r Arglwydd Ganghellor a'r camau nesaf** 29

Tariff Atchwip 29

Cynnydd i Ffioedd Barnwrol 29

Tystiolaeth feddygol briodol ar gyfer setlo hawliad anaf personol sy'n gysylltiedig ag atchwip 30

Y camau nesaf 30

**Manylion cyswllt, cwynion a chopïau ychwanegol** 32

Manylion cyswllt y Weinyddiaeth Gyfiawnder 32
Cwynion neu sylwadau 32
Copïau ychwanegol 32

**Y Gymraeg 33**
Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg 33

# Rhagair



Cyflwynodd Deddf Atebolrwydd Sifil 2018 (Deddf 2018) nifer o newidiadau i'r broses hawlio ar gyfer gwneud hawliadau anafiadau personol isel eu gwerth sy'n gysylltiedig â damweiniau traffig ar y ffordd, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn hawliadau 'atchwip'.

Roedd hyn yn cynnwys mesurau i gyflwyno tariff ar gyfer digolledu am anafiadau atchwip, ynghyd â 'chynnydd barnwrol' – swm y gall y llys ei ychwanegu at yr iawndal yn y tariff a ddyfernir i hawlydd. Gwnaeth Deddf 2018 hefyd gyflwyno diffiniad cyfreithiol o'r hyn sy'n gyfystyr â hawliad atchwip am y tro cyntaf, yn ogystal â gwahardd yr arfer o gynnig neu geisio setliad i hawliad atchwip heb dystiolaeth feddygol.

Mae Rheoliadau Anafiadau Atchwip 2021 (y Rheoliadau) yn caniatáu i mi, fel yr Arglwydd Ganghellor, bennu lefel y tariff a'r cynnydd barnwrol ychwanegol a ganiateir dan amgylchiadau eithriadol. Mae Deddf 2018 yn gosod dyletswydd statudol arnaf i'w hadolygu o fewn tair blynedd ar ôl iddynt gael eu cyflwyno (ac o fewn pob cyfnod o dair blynedd wedi hynny) ac i osod adroddiad sy'n rhoi manylion canlyniadau'r adolygiad a'r camau nesaf gerbron y Senedd.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflawni fy rhwymedigaethau statudol o ran adolygu'r Rheoliadau ac, wrth ei lunio, rwyf wedi ystyried sylfaen dystiolaeth gadarn ac eang. Rwyf hefyd wedi ystyried yr amrywiaeth eang o safbwyntiau a rannwyd gan randdeiliaid drwy ymarfer Galwad am Dystiolaeth.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi manylion fy mhenderfyniadau a'r camau nesaf sy'n angenrheidiol er mwyn eu rhoi ar waith. Yn unol â'r gofynion yn Neddf 2018, mae copi wedi cael ei adneuo yn y Senedd.



**Y Gwir Anrhydeddus Shabana Mahmood AS**
**Yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder**

# Crynodeb Gweithredol

Gwnaeth Rhan 1 o Ddeddf 2018 ddiwygio'r broses ar gyfer dyfarnu iawndal i hawlwyr am boen, dioddefaint a cholli amwynder o ganlyniad i anafiadau atchwip yn sgil damwain traffig ar y ffordd. Mae adran 3 o Ddeddf 2018 yn darparu i'r Arglwydd Ganghellor bennu tariff iawndal ar gyfer anafiadau atchwip hyd at ddwy flynedd o hyd a gwneud rheoliadau i bennu symiau'r tariff.

Mae adran 4 o Ddeddf 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Arglwydd Ganghellor adolygu'r tariff atchwip o fewn tair blynedd fan bellaf ar ôl iddi gael ei gweithredu ac o fewn pob cyfnod o dair blynedd fan bellaf wedi hynny. Mae Rheoliadau Anafiadau Atchwip 2021 yn gweithredu'r darpariaethau a nodir yn Neddf 2018.

Rhaid i'r Arglwydd Ganghellor hefyd ymgynghori â'r Arglwyddes Brif Ustus cyn gwneud rheoliadau newydd a pharatoi adroddiad ar bob adolygiad, ei gyhoeddi a'i osod gerbron y Senedd. Diben yr adroddiad hwn yw rhoi gwybodaeth am y broses adolygu a ddilynwyd, ynghyd â manylion yr argymhellion a wneir.

Mae'r adolygiad wedi ystyried amrywiaeth eang o faterion gan gynnwys elfennau'r tariff (y bandiau hyd, a gwahanu anafiadau atchwip yn unig ac anafiadau atchwip gyda mân niwed seicolegol). Mae hefyd wedi archwilio'r hyn sydd wedi newid ers cyflwyno'r mesurau, megis ystyried sut mae ffactorau economaidd fel chwyddiant wedi cael effaith ers i'r tariff gael ei gyflwyno.

Cafwyd data ategol gan y gwasanaeth Hawliadau Anafiadau Swyddogol (yn gywir ar 31 Mawrth 2024), Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi a MedCo (y ddau'n gywir ar 30/04/24). Mae'r data hyn wedi cael eu hystyried, yn ogystal â'r rhagolygon priodol o chwyddiant yn y dyfodol a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol.

Mae cyhoeddiad ar wahân sy'n rhoi crynodeb lefel uchel o'r ymatebion i'r Alwad am Dystiolaeth a gyhoeddwyd i gefnogi'r ymarfer adolygu wedi cael ei gyhoeddi ar wahân ac mae ar gael yma:
https://www.gov.uk/government/calls-for-evidence/statutory-review-of-the-whiplash-tariff

Yn olaf, mae'r adroddiad hwn hefyd yn rhoi gwybodaeth am y camau nesaf er mwyn cwblhau'r adolygiad a rhoi ei ganlyniadau ar waith. Mae hyn yn cynnwys yr amserlen fras ar gyfer ymgynghori â'r Arglwyddes Brif Ustus a pharatoi a gosod Offeryn Statudol wedi'i ddiweddaru o dan y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol er mwyn rhoi'r newidiadau terfynol i'r Rheoliadau ar waith.

**Y Weinyddiaeth Gyfiawnder – 21 Tachwedd 2024**

# Cyflwyniad

1. Cyhoeddir yr adroddiad hwn fel rhan o’r adolygiad statudol o Reoliadau Anafiadau Atchwip 2021. Mae'r adolygiad yn cynnwys asesiad o'r darpariaethau sydd wedi’u cynnwys yn y Rheoliadau hyn, sef:
   - y tariff atchwip a’i elfennau;
   - y cynnydd barnwrol a ganiateir mewn achosion lle y gall yr hawlydd brofi bod naill ai ei anaf atchwip neu ei amgylchiadau’n eithriadol;
   - diffiniad o’r hyn sy’n gyfystyr â thystiolaeth feddygol a darparwr adroddiad meddygol at ddibenion gorfodi’r gwaharddiad ar geisio neu wneud cynigion i setlo hawliad atchwip heb dystiolaeth feddygol.

2. Mae’r adolygiad wedi ystyried newidiadau sy’n benodol i hawliadau atchwip, yn ogystal â ffactorau ehangach fel chwyddiant a newidiadau yn y sector hawliadau. Mae newidiadau economaidd a sectoraidd ehangach a newidiadau eraill ers i’r Rheoliadau gael eu gweithredu ar 31 Mai 2021 wedi cael eu hystyried, ochr yn ochr â data’r diwydiant a’r llywodraeth a Galwad am Dystiolaeth.

3. Cafodd yr holl sylwadau a thystiolaeth a gyflwynwyd mewn ymateb i’r Alwad am Dystiolaeth eu hasesu a’u defnyddio i lywio a chynorthwyo’r gwaith o ystyried y Rheoliadau. Yn unol â’r gofynion statudol, caiff copi o’r adroddiad hwn ar ganlyniadau’r adolygiad ei adneuo yn y Senedd a gellir cyfeirio at yr ymatebion hyn gan randdeiliaid yn y copi hwnnw. Mae dogfen ymateb lefel uchel ar wahân sy’n ymdrin â’r ymatebion i’r Alwad am Dystiolaeth hefyd wedi cael ei chyhoeddi a dylid ei darllen ochr yn ochr â’r adroddiad hwn.

4. Ar ben hynny, nid oes Asesiad Effaith ffurfiol wedi cael ei baratoi mewn perthynas â’r adroddiad hwn, gan nad oes cynigion polisi newydd wedi’u cynnwys. Hefyd, dylid nodi bod yr effeithiau ar ddiwygiadau i’r Rheoliadau mewn perthynas â’r tariff atchwip a’r cynnydd barnwrol wedi cael eu hystyried drwy gydol y broses adolygu.

5. Nid yw’r adolygiad hwn yn asesu i ba raddau y mae mesurau’r rhaglen ddiwygio ar gyfer anafiadau atchwip wedi cyflawni eu hamcanion polisi cyffredinol, sydd y tu allan i gwmpas yr adolygiad statudol hwn sydd ond yn canolbwyntio ar adolygu’r Rheoliadau. Caiff rhagor o wybodaeth am adolygiad ôl-weithredu ffurfiol o’r rhaglen ddiwygio ar gyfer anafiadau atchwip ei rhannu maes o law.

6. Mae copïau o’r adroddiad hwn yn cael eu hanfon i’r sefydliadau a restrir yn Atodiad 1 er gwybodaeth (noder na fwriedir i’r rhestr hon fod yn hollgynhwysfawr nac yn gyfyngedig).

7. Mae fersiynau Saesneg a hygyrch o'r ddogfen hon ar gael i'w lawrlwytho yn:

https://www.gov.uk/government/publications/whiplash-reform-programme-information-and-faq

**Y Weinyddiaeth Gyfiawnder – 21 Tachwedd 2024**

# Cefndir

## Y Rhaglen Ddiwygio ar gyfer Anafiadau Atchwip

8. Ar ôl iddi gael ei rhoi ar waith ar 31 Mai 2021, gwnaeth y Rhaglen Ddiwygio ar gyfer Anafiadau Atchwip newid y ffordd y caiff iawndal ei ddyfarnu i hawlwyr am anafiadau atchwip isel eu gwerth. Roedd hyn yn cynnwys y mesurau a geir yn Rhan 1 o Ddeddf 2018[1] i ddiffinio atchwip, gwahardd cynigion cyn tystiolaeth feddygol, a chyflwyno tariff atchwip.

9. Cafodd y diwygiadau hyn eu hategu gan newidiadau ychwanegol i is-ddeddfwriaeth er mwyn cynyddu terfyn y trac hawliadau bychain ar gyfer hawliadau anafiadau personol sy'n gysylltiedig â damweiniau traffig ar y ffordd o £1,000 i £5,000 a chyflwyno Protocol Cyn Achos newydd ar gyfer Hawliadau Anafiadau Personol islaw'r Terfyn Hawliadau Bychain mewn Damweiniau Traffig ar y Ffordd (Protocol Hawliadau Bychain ar gyfer Damweiniau Traffig ar y ffordd[2]).

10. Ar yr un pryd, lansiwyd porth Hawliadau Anafiadau Swyddogol (OIC)[3] sy'n eiddo i'r diwydiant ac a ddatblygwyd ganddo, er mwyn helpu hawlwyr y mae'r diwygiadau'n effeithio arnynt. Gwasanaeth ar-lein rhad ac am ddim ar gyfer cyflwyno, cyd-drafod a setlo hawliadau anafiadau personol isel eu gwerth sy'n gysylltiedig â damweiniau traffig ar y ffordd yw OIC. Mae OIC wedi'i gynllunio i fod yn hygyrch ac yn hawdd ei ddefnyddio i hawlwyr heb gynrychiolaeth a defnyddwyr proffesiynol megis cyfreithwyr, yswirwyr ac eraill sy'n gysylltiedig â chyflwyno hawliadau anafiadau personol.

## Y broses cyn y diwygiadau

11. Cyn i'r diwygiadau atchwip gael eu cyflwyno, byddai iawndal am anafiadau personol mewn hawliadau a oedd yn gysylltiedig â damweiniau traffig ar y ffordd yn cael ei bennu drwy gyd-drafod neu byddai'r llys yn penderfynu arno. Y ffactorau a ystyrid, ymhlith pethau eraill, oedd difrifoldeb a hyd yr anafiadau, a lefelau iawndal blaenorol am anafiadau tebyg.

---

[1] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2018/29/part/1/enacted

[2] https://www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/civil/protocol/pre-action-protocol-for-personal-injury-claims-below-the-small-claims-limit-in-road-traffic-accidents-the-rta-small-claims-protocol

[3] https://www.officialinjuryclaim.org.uk/

12. Hefyd, cyfeirid fel arfer at gyhoeddiad gan y Coleg Barnwrol o'r enw *Guidelines for the Assessment of General Damages in Personal Injury Cases*. O dan y system hon, y dyfarniad cyfartalog cyn y diwygiadau ar gyfer anaf atchwip gyda chyfnod prognosis o naw mis oedd tua £2,600.

## Y tariff atchwip

13. Mae Rhan 1, adran 1 o Ddeddf 2018 yn cyflwyno diffiniad o anaf atchwip am y tro cyntaf, ac mae Rhan 1, adran 3 o Ddeddf 2018 yn caniatáu i'r Arglwydd Ganghellor bennu tariff penodedig o iawndal cymesur ar gyfer anafiadau atchwip. Gwnaeth Rheoliadau Anafiadau Atchwip 2021 (y Rheoliadau) bennu lefelau'r tariff a'r ganran y gall y llys ei hychwanegu at y dyfarniad yn y tariff mewn achosion lle y gall yr hawlydd brofi bod naill ai amgylchiadau eithriadol neu anaf eithriadol.

14. Mae'r tariff yn cyflwyno graddfa esgynnol o daliadau swm penodedig, a chaiff y ffigur priodol yn y tariff ar gyfer unrhyw hawliad penodol ei bennu yn seiliedig ar hyd yr anaf atchwip a gafwyd. Bandiau'r tariff yw 0–3 mis, 3–6 mis, 6–9 mis, 9–12 mis, 12–15 mis, 15–18 mis a 18–24 mis. Nid yw anafiadau atchwip mwy difrifol sy'n para mwy na 24 mis o fewn cwmpas y tariff ac ymdrinnir â nhw yn yr un ffordd â chyn y diwygiadau o hyd.

15. Mae'r tariff wedi'i rannu, a gellir gwneud hawliadau naill ai am anaf atchwip yn unig neu am anaf atchwip a mân anaf seicolegol. Bydd yr iawndal y mae gan hawlydd hawl i'w gael yn dibynnu ar y cyfnod prognosis ar gyfer ei anaf atchwip, beth bynnag fo cyfnod prognosis unrhyw elfen seicolegol. Rhaid i'r prognosis hwn gael ei nodi mewn adroddiad meddygol ategol. Mae'r rheoliadau hefyd yn pennu beth sy'n gyfystyr â thystiolaeth feddygol briodol at ddibenion setlo hawliad atchwip.

16. Gellir ychwanegu cynnydd o hyd at 20% o'r swm perthnasol yn y tariff os gall yr hawlydd ddangos bod ei anaf neu ei amgylchiadau yn eithriadol. Nid oes diffiniad penodol o'r hyn sy'n gyfystyr ag amgylchiadau eithriadol wedi cael ei ddarparu, gan y bydd hyn yn dibynnu ar amgylchiadau unigol pob hawlydd/hawliad.

    a. Ystyriwyd sawl ffactor wrth bennu'r ffigurau hyn yn 2021, gan gynnwys y canllawiau a oedd yn cael eu hawgrymu ar gyfer digolledu fel y'u nodir yng nghanllawiau'r Coleg Barnwrol a lefelau cyfartalog y taliadau digolledu am atchwip cyn y diwygiadau. Roedd yr amcanion polisi cyffredinol i reoli costau hawliadau a chynnig budd i ddefnyddwyr drwy leihau premiymau yswiriant cerbyd modur hefyd yn ffactor.

    b. Casglwyd data, tystiolaeth ac adborth ar setliadau gwirioneddol gan y diwydiant yswiriant a chyfreithwyr hawlwyr. Pan gafodd ei bennu, roedd symiau'r tariff hefyd yn adlewyrchu chwyddiant rhagamcanol dros y cyfnod tair blynedd dilynol (h.y.

2021–2024) a 15fed argraffiad canllawiau'r Coleg Barnwrol (yr argraffiad diweddaraf ar y pryd).

c. Hefyd, gofynnwyd am farn yr Arglwydd Brif Ustus ar y pryd cyn i'r ffigurau gael eu pennu'n derfynol, yn unol â gofynion Deddf 2018. Rhoddwyd y tariff terfynol ar waith drwy gychwyn Offeryn Statudol (OS) a osodwyd yn y Senedd o dan y weithdrefn gadarnhaol. Fel y cyfryw, roedd yr OS hwn yn destun trafodaethau yn y ddau Dŷ cyn cael ei gychwyn ar 31 Mai 2021.

## Cynnydd i Ffioedd Barnwrol

17. Mae Rhan 1, adran 5 o Ddeddf 2018 yn caniatáu i'r llys benderfynu y dylid talu swm sy'n fwy na'r ffigur perthnasol yn y tariff am anafiadau atchwip dan amgylchiadau eithriadol neu os bydd un neu fwy o'r anafiadau atchwip yn eithriadol o ddifrifol. Mae adran 5 hefyd yn galluogi'r Arglwydd Ganghellor i ddarparu mewn rheoliadau, drwy gyfeirio at ganran o'r swm rhagnodedig, yr uchafswm cynnydd y gallai'r llys ei ychwanegu at y symiau a ragnodir o dan y tariff.

18. Cafodd y cynnydd barnwrol ei gapio ar hyd at 20% yn dilyn trafodaeth yn y Senedd. Roedd hyn yn unol â phroses debyg a roddwyd ar waith yn yr Eidal yn 2014, lle y gallai Llysoedd yr Eidal ychwanegu cynnydd o un rhan o bump (20%) at daliad digolledu ar gyfer hawliad anaf personol sy'n gysylltiedig â damwain traffig ar y ffordd.

## Adolygiad cynnar o'r tariff

19. Mae adran 4 o Ddeddf 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Arglwydd Ganghellor adolygu'r rheoliadau a wneir o dan adran 3 (y tariff atchwip) o fewn tair blynedd fan bellaf ar ôl iddynt gael eu gweithredu (31 Mai 2024) a gosod adroddiad yn y Senedd ar ganlyniadau ac argymhellion yr adolygiad.

20. Er bod Deddf 2018 yn ei gwneud yn ofynnol cynnal adolygiad o fewn tair blynedd, ymrwymodd y llywodraeth ar y pryd i asesu dichonoldeb adolygiad cynnar ar ôl blwyddyn yn ystod y trafodaethau yn y Senedd ar weithredu'r OS. Felly, cynhaliwyd asesiad yn 2022 o'r data a oedd ar gael ar setliadau a wnaed gan ddefnyddio gwasanaeth OIC a'r rhai a oedd wedi mynd drwy broses y llys.

21. Diben adolygu'r tariff atchwip yw deall sut y caiff ei ddefnyddio a'i ddehongli'n ymarferol ac a fyddai'n briodol addasu bandiau'r tariff a/neu'r ffordd y maent wedi'u strwythuro a'r ffordd y maent yn gweithredu. Er mwyn i adolygiad o'r fath fod yn ystyrlon, roedd angen i dystiolaeth a data digonol a chynhwysfawr fod ar gael. Fel

arall, roedd risg sylweddol y byddai unrhyw adolygiad yn arwain at ddadansoddiad wedi'i gamystumio a chanlyniadau anghywir, a allai fod yn niweidiol i bob parti.

22. Roedd hyn o reidrwydd yn golygu edrych ar dystiolaeth mewn perthynas â setliadau a gyd-drafodwyd cyn mynd i'r llys ac achosion a oedd yn destun anghydfod yn y llys. Roedd angen i'r dystiolaeth a'r data a ystyriwyd fod yn gyflawn, yn ddibynadwy, yn gyfredol ac yn ddigon niferus i sicrhau y gellid eu defnyddio i lywio casgliadau ystyrlon.

23. Ar ôl bwrw golwg dros y data a oedd ar gael yn 2022, penderfynwyd bod digon o ddata ar gael gan OIC ar y ffordd roedd y tariff wedi cael ei ddefnyddio i setlo hawliadau cyn mynd i'r llys. Fodd bynnag, roedd y data gan GLITEF ar hawliadau yr ymdriniwyd â nhw drwy'r gwasanaeth llysoedd yn llawer is na'r trothwy a oedd yn ofynnol er mwyn asesu'r tariff yn effeithiol. Felly, penderfynodd yr Arglwydd Ganghellor ar y pryd nad oedd yn briodol cynnal adolygiad bryd hynny ac y byddai adolygiad ar ôl tair blynedd yn fwy priodol.

## Tystiolaeth feddygol briodol ar gyfer setlo hawliad anaf personol sy'n gysylltiedig ag atchwip

24. Mae adrannau 6 i 8 o Ddeddf 2018 yn darparu ar gyfer gwahardd ceisio, cynnig, talu neu dderbyn setliad mewn perthynas â hawliad atchwip sy'n gysylltiedig â damwain traffig ar y ffordd heb gael tystiolaeth feddygol briodol o'r anaf atchwip yn gyntaf. Rhaid i reoleiddwyr perthnasol – er enghraifft yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr neu'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol – sicrhau bod ganddynt drefniadau ar gyfer monitro a gorfodi'r gwaharddiad hwn. Mae'r dull hwn yn debyg i'r hyn a wnaed wrth wahardd talu a derbyn ffioedd atgyfeirio yn Rhan 2 o Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012.[4]

25. Caiff y termau 'adroddiad meddygol cost benodedig', 'arbenigwr meddygol achrededig' a 'MedCo' eu diffinio yn y rheoliadau. Gwneir darpariaeth ar wahân ar gyfer achosion lle mae hawlydd yn byw, ac yn cael ei archwilio, y tu allan i Gymru a Lloegr, er y byddai'r ddamwain traffig ar y ffordd wedi digwydd yn yr awdurdodaeth honno, er mwyn ystyried y ffaith na fydd yr hawlwyr hyn, yn y rhan fwyaf o achosion, yn gallu cael gafael ar eu hadroddiad meddygol drwy borth MedCo.[5]

---

4 https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2012/10/contents/enacted

5 https://www.medco.org.uk/about-us/

# Cwmpas yr Adolygiad hwn

## Gofynion deddfwriaethol

26. Dywed Deddf 2018:

> **4 Adolygu rheoliadau gan adran 3**
>
> (1) Rhaid i'r Arglwydd Ganghellor gynnal adolygiadau o reoliadau a wnaed dan adran 3.
>
> (2) Rhaid i'r adolygiad cyntaf gael ei gwblhau cyn diwedd y cyfnod o dair blynedd sy'n cychwyn ar y diwrnod mae'r rheoliadau cyntaf dan adran 3 yn dod i rym.
>
> (3) Rhaid i adolygiadau dilynol gael eu cwblhau cyn diwedd y cyfnod o dair blynedd sy'n cychwyn ar y diwrnod cwblhawyd yr adolygiad blaenorol.
>
> (4) Rhaid i'r Arglwydd Ganghellor baratoi a chyhoeddi adroddiad o bob adolygiad.
>
> (5) Rhaid i'r Arglwydd Ganghellor gyflwyno pob adroddiad gerbron Senedd y DU.

27. Caiff y Rheoliadau eu gwneud o dan adran 3 o Ddeddf 2018 ac maent yn gwneud y canlynol:

- pennu, drwy gyfrwng tariff, yr iawndal sy'n daladwy ar gyfer poen, dioddefaint a cholli amwynder mewn perthynas ag unrhyw anaf neu anafiadau atchwip sy'n gysylltiedig â damwain traffig ar y ffordd (fel y'u diffinnir gan Ddeddf 2018) sy'n para hyd at ddwy flynedd, ac unrhyw anaf neu anafiadau atchwip ac unrhyw anaf atchwip a mân anafiadau seicolegol a ddioddefir ar yr un achlysur;
- caniatáu i'r llys ychwanegu cynnydd yn ôl disgresiwn (hyd at 20%) at y ffigur priodol yn y tariff os gall yr hawlydd ddangos tystiolaeth o anaf eithriadol neu amgylchiadau eithriadol;
- pennu'r hyn sy'n gyfystyr â thystiolaeth feddygol briodol at ddibenion setlo hawliad anaf personol sy'n cynnwys anaf atchwip (y bydd yn rhaid ei chael cyn y gellir setlo'r hawliad) yn ogystal â nodi'r arbenigwyr a all ddarparu tystiolaeth o'r fath.

28. Mae'r holl ddata, tystiolaeth ac adborth gan randdeiliaid sy'n berthnasol wrth adolygu'r tariff atchwip, y cynnydd barnwrol a'r diffiniad o'r hyn sy'n gyfystyr â thystiolaeth feddygol briodol wedi cael eu hystyried. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r materion ac yn amlinellu'r penderfyniadau a wnaed ynghyd â'r camau nesaf a argymhellir, lle bo hynny'n briodol, mewn perthynas â'r meysydd a restrir uchod.

29. Nid gwerthusiad o’r rhaglen ddiwygio ar gyfer anafiadau atchwip yn gyffredinol nac asesiad o’i heffaith ar hawlwyr unigol, y sector anafiadau personol na gweithgarwch y llysoedd yw’r adroddiad hwn, ac ni ddylid ei ystyried felly. Caiff adolygiad ôl-weithredu ar wahân o’r diwygiadau ei gwblhau maes o law, ar ôl i’r adolygiad hwn gael ei gwblhau ac ar ôl i’w ganlyniadau gael eu rhoi ar waith.

## Tariff Atchwip – Tystiolaeth a ffynonellau data

30. Mae’r adroddiad hwn yn seiliedig ar ystyriaeth o ffynonellau data lluosog gan y diwydiant a’r llywodraeth. Mae hyn yn cynnwys data a ddarparwyd gan OIC, GLlTEF a MedCo, a thrwy alwad gyhoeddus am dystiolaeth gan randdeiliaid.

31. Mae OIC wedi darparu data defnyddiol gan gynnwys niferoedd yr hawliadau wedi’u rhannu yn ôl math o hawlydd, dosbarthiad hawliadau wedi’i rannu yn ôl hawliadau’r tariff a hawliadau nad ydynt o fewn cwmpas y tariff ac yn ôl math o hawlydd. Ar ben hynny, mae setiau data amrywiol sy’n ymwneud â gwerthoedd setliadau ac amseroedd setlo wedi cael eu rhannu hefyd.

32. Nid oes data llawn ar werth setliadau a bennir yn y llys yn cael eu cadw’n ganolog mewn ffeiliau electronig. Mae hyn yn golygu nad oes data ar werth pob dyfarniad llys ar gael ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae gwaith i gyflawni rhaglen Ddiwygio GLlTEF a gwella prosesau casglu data yn mynd rhagddo a bydd swyddogion yn parhau i weithio i wella ansawdd data yn y maes hwn er mwyn cyfrannu at adolygiadau yn y dyfodol.

33. Felly, ar gyfer yr ymarfer hwn, mae GLlTEF wedi darparu sampl gynrychiadol o 100 o hawliadau a ddetholwyd o chwiliad â llaw o ffeiliau llys achosion wedi’u setlo a wrandawyd gan lysoedd yn Birkenhead, Chelmsford, Manceinion a St Helens.

34. Mae’r data hyn yn ymwneud â nifer yr hawliadau sydd wedi gwneud cais am wrandawiad setlo anghydfod cwantwm, y niferoedd sy’n tynnu’n ôl neu’n setlo cyn gwrandawiad, a nifer yr hawliadau cwantwm a gafodd ddyfarniad llys. Ar ben hynny, mae’r data hyn yn ymwneud â gwerth setliadau ar gyfer anafiadau atchwip, anafiadau atchwip a mân anafiadau seicolegol ac anafiadau nad ydynt yn anafiadau atchwip.

35. Mae MedCo wedi darparu data ar gyfnodau prognosis cyfartalog ar gyfer hawlwyr â chynrychiolaeth a hawlwyr heb gynrychiolaeth. Mae’r data cymharol hyn wedi cael eu defnyddio i gefnogi ystyriaethau ynghylch bandiau a strwythur y tariff.

36. Er nad yw’n ofyniad statudol, cafodd Galwad am Dystiolaeth gan randdeiliaid mewn perthynas ag amrywiaeth o faterion sy’n gysylltiedig â gweithredu’r tariff atchwip ei chyhoeddi i gefnogi’r adolygiad hwn hefyd. Mae’r ymatebion, y data a’r dystiolaeth a

gyflwynwyd i'r ymarfer hwn, lle roeddent o fewn cwmpas yr adolygiad hwn, hefyd wedi cael eu hystyried ochr yn ochr â'r ffynonellau data penodol a ddisgrifir uchod.

# Dadansoddiad o Ddata ac Ymatebion i'r Alwad am Dystiolaeth gan Randdeiliaid

## Strwythur ac elfennau'r tariff

37. Mae Tabl 1 yn nodi strwythur a symiau digolledu presennol y tariff atchwip, wedi'u rhannu yn ôl hyd yr anaf a'r math o anaf, fel y'u nodir yn Rheoliadau 2021. Mae gwybodaeth ychwanegol am y ffordd y caiff y tariff ei ddefnyddio i'w gweld yn y Memorandwm Esboniadol[6] sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau ac yn adran 4.41 o ganllaw OIC ar wneud hawliad anaf personol.[7]

**Tabl 1: Tariff Atchwip**

| Hyd yr anaf | Swm (atchwip yn unig) | Swm (atchwip a mân anaf seicolegol) |
|---|---:|---:|
| Dim mwy na 3 mis | £240 | £260 |
| Mwy na 3 mis, ond dim mwy na 6 mis | £495 | £520 |
| Mwy na 6 mis, ond dim mwy na 9 mis | £840 | £895 |
| Mwy na 9 mis, ond dim mwy na 12 mis | £1,320 | £1,390 |
| Mwy na 12 mis, ond dim mwy na 15 mis | £2,040 | £2,125 |
| Mwy na 15 mis, ond dim mwy na 18 mis | £3,005 | £3,100 |
| Mwy na 18 mis, ond dim mwy na 24 mis | £4,215 | £4,345 |

## Bandiau hyd

38. Dyluniwyd y tariff mewn ffordd sy'n golygu bod modd dringo drwy'r raddfa fesul cam cyfartal, yn dibynnu ar ddifrifoldeb yr anaf. Ar gyfer hyd yr anaf, pennwyd cynyddrannau o dri mis sy'n gysylltiedig â chyfnodau prognosis yr anaf. Cafodd band

6 https://www.legislation.gov.uk/uksi/2021/642/pdfs/uksiem_20210642_en.pdf

7 https://www.officialinjuryclaim.org.uk/guide-to-making-a-claim/

ychydig yn hwy, sef chwe mis, ei gynnwys ar ben uchaf y raddfa ar gyfer anafiadau â chyfnod prognosis o 18 i 24 mis.


39. Fel y nodwyd yn y memorandwm esboniadol ar gyfer y Rheoliadau, mae gwerth yr hawliad ar gyfer y naill dariff neu'r llall yn seiliedig ar hyd yr anaf atchwip yn hytrach na'r mân anaf seicolegol. Mae hyn yn galluogi hawlwyr i nodi'r band digolledu priodol drwy gyfeirio at y cyfnod prognosis a nodir yn eu hadroddiad meddygol.

40. At ei gilydd, roedd yr ymatebwyr i'r Alwad am Dystiolaeth yn cytuno mai pennu'r bandiau mewn cyfnodau o dri mis oedd y dull cywir a'i fod yn gweithio'n dda ar y cyfan. Cyfeiriodd rhai rhanddeiliaid at broblemau wrth gytuno ar y band priodol pan oedd y cyfnod prognosis yn gorgyffwrdd â dau fand, gyda hawlwyr yn dadlau o blaid bandiau uwch a diffynyddion yn awgrymu bandiau is.


41. Hefyd, awgrymodd nifer bach o ymatebwyr fod cynnydd yn nifer y cyfnodau prognosis 13 mis sy'n cael eu rhoi. Fodd bynnag, nid yw'r data sydd ar gael yn ategu'r honiad hwn o newid mewn prognosisau.

42. Mae data MedCo o 2019/20, a oedd cyn y diwygiadau, o'u rhannu yn ôl bandiau tri mis, yn debyg iawn i gyfran y cyfnodau prognosis a roddwyd yn 2023/24. Ceir rhai newidiadau bach, a'r mwyaf yw cynnydd o 3% yn y band 3–6 mis, ond caiff hyn ei wrthbwyso gan leihad o 2% yn y band 7–9 mis. Mae Siartiau 1 a 2 isod yn dangos y dadansoddiad llawn.

**Siart 1: Achosion atchwip yn ôl y prognosis hwyaf – achosion a lanlwythwyd rhwng mis Mawrth 2019 a mis Chwefror 2020**




**Siart 2: Achosion atchwip yn ôl y prognosis hwyaf – achosion a lanlwythwyd rhwng mis Mawrth 2023 a mis Chwefror 2024**




43. Ategir y dadansoddiad data hwn hefyd drwy edrych ar ddata dosbarthiad hawliadau OIC ar gyfer hawliadau'r tariff atchwip. Mae Siart 3 isod yn rhoi manylion y data hyn, lle y gwelir bod gwasgariad y data yr un fath yn fras â'r hyn a welir yn y siartiau MedCo.

44. Ceir gwahaniaeth bach yn y data ar gyfer anafiadau 0–3 mis a 3–6 mis, sy'n debygol o fod yn gysylltiedig â'r ffordd y caiff y data eu cyflwyno. Caiff data MedCo eu rhannu fymryn yn wahanol i ddata OIC ac felly mae'n bosibl y caiff hawliadau â phrognosis o chwe mis eu dyrannu ar wahanol ochrau i'r llinell. Mae data OIC yn seiliedig ar ddata hawliadau wedi'u setlo lle y cytunir ar fand y tariff.

**Siart 3: OIC – dosbarthiad hawliadau'r tariff atchwip**




## Mân Anafiadau Seicolegol:

45. Fel y dangosir uchod, mae'r tariff wedi'i rannu'n ddwy set o ffigurau, sef un ar gyfer anafiadau atchwip yn unig ac un arall ar gyfer anafiadau atchwip ynghyd ag unrhyw fân anafiadau seicolegol a ddioddefir ar yr un achlysur. Mae hyn yn sicrhau mai dim ond pan fydd mân anaf seicolegol yn bresennol a phan gyfeirir ato yn yr adroddiad meddygol cychwynnol (er enghraifft, mân sioc neu bryder teithio lle y gellir priodoli hynny i'r ddamwain) y caiff iawndal am fân anaf seicolegol ei dalu.

46. Ar y cyfan, roedd rhanddeiliaid yn cytuno y dylid parhau i rannu'r tariff fel hyn er mwyn sicrhau mai dim ond pan fo'n briodol y digolledir am anaf seicolegol. Fodd bynnag, mae adborth o'r Alwad am Dystiolaeth hefyd yn dangos y gall fod anghytuno ynghylch y diffiniad o fân anaf seicolegol, gan arwain at gynnydd mewn adroddiadau meddygol eilaidd i asesu anafiadau seicolegol.

47. Dylid nodi bod y bennod ar fân anafiadau yng nghanllawiau'r Coleg Barnwrol yn datgan mai anaf sy'n para am ddim mwy na thri mis yw mân anaf fel arfer, ac y gellir ystyried bod anaf seicolegol fel pryder teithio yn fân anaf hyd yn oed os bydd yn para mwy na thri mis (testun llawn isod).

Anafiadau sy’n para am gyfnod byr, lle y bydd gwellhad llwyr o fewn tri mis, ac na chyfeirir atynt fel arall mewn penodau eraill, yw mân anafiadau. Mae'n bosibl y bydd achosion lle y ceir poen sylweddol neu anafiadau lluosog, er gwaethaf gwellhad llawn o fewn tri mis, y tu allan i gwmpas y bennod hon. **Yn yr un modd, mae'n bosibl y bydd yn briodol i achosion sy’n cynnwys pryder teithio (sy’n gysylltiedig â mân anafiadau corfforol) neu fân greithio lle mae’r symptomau’n para am fwy na thri mis, er enghraifft, gael eu cynnwys yn y bennod hon.** Bydd y dyfarniadau ym mhob categori yn dibynnu ar ddifrifoldeb a hyd y symptomau. Bydd y graddau y mae lefel y symptomau’n aros yn gymharol gyson hefyd yn ffactor perthnasol. Ni fydd hawliadau sy’n ymwneud â sioc neu bryder teithio yn unig, a hynny heb anaf seiciatrig cydnabyddedig neu gorfforol, yn arwain at ddyfarniad o ddigolllediad.

48. Mae’r llywodraeth yn disgwyl i’r dull hwn gael ei ddefnyddio ar gyfer mân hawliadau seicolegol sy’n gysylltiedig ag anaf atchwip. Felly, dim ond pe bai anaf seiciatrig neu anhwylder straen wedi trawma mwy sylweddol y gellir rhoi diagnosis ohono y byddai angen ail adroddiad fel arfer, fel y disgrifir ym Mhennod 4 canllawiau'r Coleg Barnwrol. Dylid gwahaniaethu rhwng y rhain a’r mân anafiadau seicolegol a gwmpesir gan y tariff, a bydd swyddogion yn ystyried ffyrdd o roi rhagor o arweiniad.

**Casgliad**

Nid oes tystiolaeth benodol i ddangos bod angen newid strwythur y tariff. Mae tystiolaeth ac adborth yn dangos bod y bandiau tri mis yn briodol a bod dwy elfen y tariff (atchwip yn unig ac atchwip a niwed seicolegol) yn gweithredu’n dda ac yn sicrhau bod hawlwyr yn cael eu digolledu'n briodol.

Mae adborth gan randdeiliaid sy'n dweud y gall fod gwrthdaro wrth gytuno ar setliadau pan fydd y cyfnod prognosis yn gorgyffwrdd â dau fand wedi cael ei nodi. Fodd bynnag, mae’n ymddangos mai problem o ran eglurder ac ansawdd yr adroddiadau meddygol yw hyn yn hytrach na phroblem o ran bandiau’r tariff eu hunain.

Felly, rwyf wedi penderfynu cadw strwythur bandiau presennol y tariff. Byddaf hefyd yn sicrhau bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn parhau i weithio gyda MedCo a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb er mwyn gwella ansawdd adroddiadau meddygol.

## Newidiadau ers gweithredu a ffactorau ehangach eraill

49. Gofynnwyd am adborth gan randdeiliaid ar unrhyw ffactorau perthnasol neu newidiadau i'r farchnad hawliadau y dylid eu hystyried wrth adolygu'r tariff atchwip. Gofynnodd cwestiwn 6 yr Alwad am Dystiolaeth am ddata ar newidiadau mewn perthynas â'r canlynol:

    a) Nifer y setliadau atchwip;

    b) Cyfansoddiad y farchnad hawliadau;

    c) Llwythi achosion;

    d) Unrhyw ffactorau perthnasol eraill.

### Niferoedd hawliadau

50. Roedd ymatebwyr o bob rhan o'r sector yn cytuno ar nifer o bwyntiau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, gan gynnwys yr effeithiau ar niferoedd setliadau. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod niferoedd hawliadau yn gyffredinol wedi lleihau tua 50% o gymharu â'r lefelau cyn y diwygiadau.

51. Nodwyd mai cyfanswm yr hawliadau a oedd yn gysylltiedig â damweiniau traffig ar ffordd y rhoddwyd gwybod i Uned Adfer Iawndal yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP CRU[8]) amdanynt yn 2019/20 oedd 653,052. Mae hyn yn cymharu â chyfanswm o 269,521 o hawliadau a ddechreuwyd ar system OIC yn 2023/24 (238,485 â chynrychiolaeth a 31,036 heb gynrychiolaeth). Fodd bynnag, mae cafeatau i'w hystyried wrth gymharu data OIC a data DWP CRU.

52. Mae hawliadau rhwng £5,000 a £25,000 yn parhau i gael eu cofrestru ar wasanaeth Claims Portal Limited (CPL)[9] a dylid ystyried y ffigurau hyn[10] hefyd wrth gymharu data ar hawliadau cyn y diwygiadau ac ar ôl y diwygiadau o ffynonellau megis DWP CRU. Mae ystyried y rhain yn arwain at leihad o tua 45%.[11]

---

8 https://www.gov.uk/government/publications/compensation-recovery-unit-performance-data/compensation-recovery-unit-performance-data

9 Gwasanaeth sy'n eiddo i'r diwydiant ac a weithredir ganddo yw Claims Portal. Mae'n cynnig dull cyfathrebu electronig diogel i gynrychiolwyr hawlwyr a digolledwyr yn unol â darpariaethau'r Protocol Cyn Achos ar gyfer damweiniau traffig ar y ffordd, a dyma'r llwybr gorfodol ar gyfer hawliadau sy'n werth rhwng £5,000 a £25,000.

10 https://www.claimsportal.org.uk/media/dn3idtnl/rta-dashboard.xlsm

11 Mae angen bod yn ofalus wrth ddyfynnu ffigurau DWP CRU am eu bod yn berthnasol i hawliadau sy'n gysylltiedig â damweiniau traffig ar y ffordd o bob gwerth, ac nid dim ond hawliadau OIC sy'n werth hyd at £5,000. Mae ffigurau cyhoeddedig DWP CRU hefyd yn cynnwys data ar gyfer yr Alban, sydd y tu allan i gwmpas y diwygiadau.

### Niferoedd setliadau

53. Mae rhanddeiliaid yn dadlau bod y lleihad yng nghyfanswm nifer yr hawliadau hefyd yn effeithio ar niferoedd setliadau. Nododd rhai ymatebwyr hefyd fod ymddygiadau wedi newid ers i'r diwygiadau gael eu rhoi ar waith, gyda chynrychiolwyr hawlwyr a digolledwyr yn cymryd rhan mewn arferion sydd wedi arwain at oedi cyn setlo achosion.

54. Ar y cyfan, awgrymodd cynrychiolwyr hawlwyr fod rhai digolledwyr yn gwneud cynigion anghywir o fewn y tariff sy'n is na'r hyn y byddent yn ei ddisgwyl ar sail adroddiad meddygol yr hawlydd. Gwnaeth rhai cynrychiolwyr hawlwyr hefyd ddadlau y dylid defnyddio cyfnod prognosis yr anaf seicolegol yn hytrach na chyfnod prognosis yr anaf atchwip, gan ei fod yn hwy. Hefyd, dywedodd digolledwyr y gallant wynebu anghytundeb pan fydd prognosis a roddir yn yr adroddiad meddygol yn pontio dau fand tariff.

55. Ymhlith yr ymddygiadau eraill a nodwyd mae amharodrwydd hawlwyr â chynrychiolaeth i lanlwytho a datgelu tystiolaeth feddygol fel un o'r prif resymau dros oedi. Mae data OIC yn dangos bod gwahaniaeth o ran amseroedd setlo; yn 2023/24 roedd yr amseroedd setlo ar gyfer hawliadau â chynrychiolaeth (297 diwrnod) dros ddwywaith yn hwy na'r rhai ar gyfer hawlwyr heb gynrychiolaeth (129 diwrnod).

56. Mae data MedCo ac OIC yn dangos bod cyfnod llawer hwy cyn i hawlwyr â chynrychiolaeth ddatgelu tystiolaeth feddygol. Ceir rhesymau dilys dros hyn, gan gynnwys hawl yr hawlydd i aros tan ddiwedd cyfnod ei brognosis. Fodd bynnag, mae hyn yn arwain at amseroedd setlo hwy ar gyfer hawlwyr â chynrychiolaeth.

57. Hefyd, roedd ymatebion gan randdeiliaid o bob rhan o'r sector yn nodi bod llawer o hawliadau wedi cael eu gohirio wrth aros am ganlyniad achos *Hassam v Rabot* yn y Goruchaf Lys ar bennu gwerth hawliadau anafiadau cymysg.[12] Fodd bynnag, awgrymwyd hefyd y bydd mwy o hawliadau'n symud yn eu blaenau ac yn cael eu setlo o hyn ymlaen, gan fod y dyfarniad wedi cael ei draddodi bellach.

### Cyfansoddiad y farchnad hawliadau

58. Roedd cytundeb ymhlith rhanddeiliaid yn y maes hwn hefyd, gyda'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn nodi bod cwmnïau wedi uno ac ymadael â'r farchnad anafiadau personol. Mae hyn yn golygu bod sawl cwmni cyfreithwyr wedi uno er mwyn galluogi arbedion maint ond mae hefyd wedi arwain at leihad yng nghyfanswm nifer y cwmnïau cyfreithwyr sy'n cynnig eu gwasanaethau i hawlwyr ar ôl i'r diwygiadau gael eu rhoi ar waith.

59. Hefyd, roedd consensws bod cyfranogiad cwmnïau rheoli hawliadau yn y sector anafiadau personol sy'n gysylltiedig â damweiniau traffig ar y ffordd wedi lleihau'n

12 https://www.supremecourt.uk/cases/uksc-2023-0025.html

sylweddol. Fodd bynnag, dylid nodi bod y lleihad hwn wedi dechrau ar ôl i’r gwaharddiad ar ffioedd atgyfeirio gael ei roi ar waith yn 2013, ac wedi cyflymu ar ôl i’r Awdurdod Ymddygiad Ariannol ddod yn gyfrifol am reoleiddio’r sector yn 2019. Wedi dweud hynny, mae’r data sydd ar gael yn dangos nad yw’r mewnlifiad disgwyliedig o gwmnïau rheoli hawliadau yn ôl i’r sector anafiadau personol sy'n gysylltiedig â damweiniau traffig ar y ffordd ar ôl y diwygiadau wedi digwydd.

### Llwythi achosion

60. Roedd yr adborth a gafwyd gan randdeiliaid yma yn ymwneud yn bennaf â’r lleihad yng nghyfanswm nifer yr hawliadau. Awgrymwyd bod hyn wedi arwain at lwythi achosion llai, ond mae'r achosion o oedi sy'n dod i’r amlwg mewn meysydd eraill yn awgrymu fel arall hefyd. Er enghraifft, fel y nodir uchod, awgrymodd digolledwyr fod oedi cyn cael adroddiadau meddygol gan hawlwyr â chynrychiolaeth yn golygu bod llwythi achosion yn tyfu. Fodd bynnag, nododd hawlwyr fod oedi’n cael ei achosi am fod digolledwyr yn gwneud cynigion anghywir ac isel.

61. Roedd rhanddeiliaid hefyd yn cytuno y bydd llwythi achosion yn llacio wrth i ragor o setliadau gael eu cwblhau yn dilyn y penderfyniad yn achos ymgyfreitha *Hassam v Rabot*. Mae hwn yn bwynt pwysig, a bydd swyddogion y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn parhau i fonitro data ar setliadau.

### Ffactorau perthnasol eraill

62. Y prif ffactorau allanol y nodwyd y dylid eu hystyried oedd effaith y lefelau chwyddiant uchel diweddar a’r cynnydd cysylltiedig mewn costau byw. Fodd bynnag, pan oedd rhanddeiliaid yn anghytuno, yr hyn y mae’r materion hyn yn ei olygu i’r adolygiad oedd y rheswm dros hyn.

63. Yn eu sylwadau, roedd digolledwyr a chyfreithwyr diffynyddion yn gwrthwynebu cynyddu’r tariff, gan ddadlau y byddai hyn yn debygol o arwain at bremiymau yswiriant cerbyd modur uwch. Roedd ymatebwyr a oedd yn canolbwyntio ar hawlwyr yn dadlau y dylai chwyddiant a phwysau costau byw arwain at gynnydd uwch na chwyddiant i lefelau’r tariff.

64. Rhaid cynnal cydbwysedd er mwyn diogelu bwriad y Senedd i sicrhau y caiff hawlwyr eu digolledu'n briodol. Mae’n debygol y byddai awgrym y digolledwyr yn arwain at ddigolledu annigonol ac y byddai awgrym yr hawlwyr yn arwain at ddigolledu gormodol.

65. Cyfeiriodd sawl ymatebydd at effaith yr 17$^{eg}$ ddiweddariad i ganllawiau’r Coleg Barnwrol a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Hefyd, mae bwrdd golygyddol canllawiau’r Coleg Barnwrol wedi ystyried materion fel chwyddiant uchel ac wedi penderfynu ar gynnydd yn unol â chwyddiant i’r dyfarniadau o tua 22% gan ddefnyddio’r Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) yn hytrach na’r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI).

66. Mae digolledwyr yn dadlau y byddai unrhyw gynnydd i’r tariff, o'i gyfuno â’r cynnydd diweddar i’r symiau yng nghanllawiau'r Coleg Barnwrol sy’n berthnasol i anafiadau nad ydynt o fewn cwmpas y tariff yn newid gwerth nifer sylweddol o hawliadau yn uwch na £5,000. Gwnaethant hefyd awgrymu y byddai cyfran sylweddol o hawliadau’n ymadael â’r trac hawliadau bychain ac yna’n cael eu hailddechrau yn y broses Trac Cyflym sy’n dwyn costau, gan ychwanegu costau uwch ac arwain at fwy o hawliadau.

67. Felly, mae digolledwyr yn dadlau y dylid cynyddu terfyn y trac hawliadau bychain hefyd i gyfateb i unrhyw gynnydd yn symiau’r tariff er mwyn sicrhau bod hawliadau’n aros ar draciau priodol y llysoedd. Unwaith eto, mae’r ddadl hon yn seiliedig ar rywfaint o resymeg ond, yn ogystal â bod y tu allan i gwmpas yr ymarfer hwn, mae hefyd angen bod yn ofalus wrth ystyried gweithredu heb roi sylw i’r holl ddata priodol.

68. Ar ben hynny, mae dadansoddiad cychwynnol yn awgrymu mai llai na 5% o hawliadau sy’n defnyddio OIC a fyddai’n cael gwerth sy'n uwch na’r terfyn hawliadau bychain o dan y tariff newydd. Fodd bynnag, bydd swyddogion y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn parhau i fonitro data ar setliadau er mwyn gweld a effeithir ar gyfran sylweddol o hawliadau yn y ffordd a awgrymir, a byddant yn ystyried camau pellach yn y maes hwn os bydd y dystiolaeth yn cyfiawnhau gwneud hynny.

## Hawliadau Anafiadau Cymysg

69. Gofynnwyd hefyd am wybodaeth am y broses ar gyfer pennu gwerth a setlo hawliadau a oedd yn cynnwys anafiadau atchwip ac anafiadau eraill. Roedd yr adborth gan randdeiliaid mewn ymateb i’r Alwad am Dystiolaeth yn ailadrodd dadleuon a nodwyd yn yr adran gynharach i raddau helaeth, yn enwedig o ran effaith achos Hassam v Rabot yn y Goruchaf Lys.

70. Gwnaeth rhanddeiliaid sylwadau ar lefelau cynyddol o wrthdaro yn y broses gyd-drafod mewn perthynas â phennu gwerth hawliadau a gwneud cynigion i setlo. Roedd y rhain yn adlewyrchu’r dadleuon a gyflwynwyd yn yr achos yn y Goruchaf Lys, gyda digolledwyr ar y cyfan yn cynnig symiau is gyda dyfarniadau o fewn y tariff ynghyd â swm symbolaidd ar gyfer anafiadau eraill. Ar y llaw arall, mae hawlwyr wedi bod yn ceisio symiau uwch gan roi mwy o bwys ar anafiadau ychwanegol.

71. Nododd rhanddeiliaid fod y safbwyntiau croes hyn wedi arwain at drafodaethau setlo arafach gyda llawer o hawliadau’n cael eu dal yn ôl er mwyn aros am ddyfarniad y Goruchaf Lys ar anafiadau cymysg. Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn parhau i fonitro data ar setliadau ac ymddygiadau’r partïon yn y maes hwn.

## Gwerthoedd setliadau

72. Mae’r data sydd ar gael ar werthoedd cyfartalog setliadau yn dangos bod hawlwyr sy’n setlo drwy borth OIC yn cael setliad cyfartalog o £747 ar gyfer hawliadau o fewn y tariff atchwip a chyfartaledd o £985 ar gyfer anafiadau y tu allan i gwmpas y tariff. Mae’r ffigurau hyn yn seiliedig ar gyfartaleddau’r holl hawliadau ers i'r tariff gael ei roi ar waith. Mewn perthynas â blwyddyn 2023/24 yn unig, y ffigurau yw £778 a £1,055 yn y drefn honno.

73. Mae sampl data GLlTEF, fel y nodwyd eisoes, yn dangos mai gwerth cyfartalog setliad ar gyfer hawliadau’r tariff atchwip yw £662 ac mai’r cyfartaledd ar gyfer anafiadau y tu allan i gwmpas y tariff yw £1,566.

**Tabl 2**

| Cymharu gwerthoedd cyfartalog setliadau | Gwerthoedd cyfartalog setliadau GLlTEF | Gwerthoedd cyfartalog setliadau OIC |
|---|---:|---:|
| Swm cyfartalog ar gyfer anafiadau y tu allan i gwmpas y tariff | £1,566 | £985 |
| Swm cyfartalog o fewn y tariff | £662 | £747 |

74. Dylid nodi dau ffactor. Yn gyntaf, mae data GLITEF yn sampl lai na data OIC, felly mae’r taliad cyfartalog o fewn y tariff yn debygol o fod yn uwch oherwydd y cynnydd yn nifer yr hawliadau. Yn ail, mae’n debygol y bydd y gwerthoedd uwch ar gyfer anafiadau y tu allan i gwmpas y tariff mewn hawliadau sydd wedi mynd i’r llys yn adlewyrchu’r ffaith mai’r hawliadau na cheir penderfyniad yn eu cylch cyn mynd i’r llys, ar y cyfan, yw’r rhai lle na ddaethpwyd i gytundeb am eu bod yn fwy cymhleth a/neu am eu bod yn cynnwys mwy o anafiadau ac felly'n uwch eu gwerth.

75. Mae’r data hyn yn dangos nad yw’r achosion a gaiff eu setlo cyn mynd i’r llys drwy OIC ar eu colled yn ariannol o ran yr iawndal a geir am boen, dioddefaint a cholli amwynder. Ar ben hynny, pan fydd eu hawliadau’n ymwneud ag anafiadau atchwip yn unig, mae system OIC yn fodd i wneud setliadau effeithiol a chymesur ar gyfer hawlwyr â chynrychiolaeth a hawlwyr heb gynrychiolaeth.

# Chwyddiant

76. Roedd effaith chwyddiant yn bwysig, a gwnaeth yr Alwad am Dystiolaeth archwilio hyn yn fanwl. Mae paragraffau 57–68 ymateb y llywodraeth yn nodi'r adborth a gafwyd. Pan gafodd y tariff ei roi ar waith, cafodd ei uwchraddio i gynnwys 'byffer' tair blynedd, gyda'r nod o gyfrif am chwyddiant disgwyliedig (yn ôl y rhagolygon a oedd ar gael). Fodd bynnag, gwnaeth chwyddiant dros y cyfnod tair blynedd cyntaf hwn gynyddu ar gyfradd uwch na'r disgwyl, a nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r Alwad am Dystiolaeth fod gwir werth y tariff wedi lleihau.

77. Mae'n wir y byddai rhai hawlwyr a setlodd yn ystod blwyddyn gyntaf y diwygiadau wedi cael budd o'r ffaith bod y byffer wedi'i gynnwys. Fodd bynnag, pe na bai'r byffer hwn wedi cael ei gynnwys, byddai'r effaith ar hawlwyr wedi bod yn uwch.

## RPI o gymharu â CPI

78. Os caiff y tariff ei gynyddu ar sail chwyddiant, yna bydd yn rhaid ystyried hefyd pa fesur chwyddiant yw'r un mwyaf priodol i'w ddefnyddio. Gwnaeth sawl un o'r cynrychiolwyr hawlwyr ddadlau yn eu hymatebion i'r Alwad am Dystiolaeth fod y Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) yn fwy priodol gan mai dyma'r mesur a ddefnyddir i uwchraddio canllawiau'r Coleg Barnwrol ac mae'n debygol y byddai'n arwain at gynnydd mwy i'r tariff.

79. Fodd bynnag, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG)[13] wedi dod i'r casgliad nad yw RPI yn fesur chwyddiant da mwyach, a hynny am sawl rheswm, a'i fod yn debygol o orddatgan chwyddiant. Hefyd, dylid nodi bod ymgynghoriad ar y cyd rhwng Trysorlys EM ac Awdurdod Ystadegau'r DU yn 2020[14] wedi cadarnhau y bydd RPI fel mesur yn cael ei ddiwygio er mwyn ei gysoni â'r ffordd y caiff mesur tai'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) ei gyfrifo erbyn 2030.

80. Felly, mae SYG yn argymell y dylai'r llywodraeth ddefnyddio mesur y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) lle bynnag y bo modd. Mae hyn yn gyson â'r ffordd y cafodd chwyddiant ei gyfrifo ar gyfer fersiwn gyntaf y tariff, a CPI oedd y mesur sylfaenol a ddefnyddiwyd yn yr adolygiad diwethaf o'r Gyfradd Ddisgownt Anaf Personol yn 2019 hefyd. Ar ben hynny, pan gynyddwyd terfyn y trac hawliadau bychain ar gyfer

[13] https://www.ons.gov.uk/economy/inflationandpriceindices/articles/shortcomingsoftheretailprices indexasameasureofinflation/2018-03-08

[14] https://www.gov.uk/government/consultations/a-consultation-on-the-reform-to-retail-prices-index-rpi-methodology

cyflogwyr a hawliadau atebolrwydd cyhoeddus yn 2022 i £1,500 i gyfrif am chwyddiant, CPI oedd y mesur a ddefnyddiwyd.

**Casgliad**

Ar ôl ystyried y data a'r dystiolaeth sydd ar gael, rwyf wedi penderfynu y dylid cynyddu'r tariff rywfaint ar sail chwyddiant, ac mai CPI yw'r mesur priodol. Byddai RPI, fel y'i cyfrifir ar hyn o bryd, yn gorddatgan chwyddiant ac mae defnyddio CPI yn cyd-fynd ag arferion cyffredin ym mhob rhan o'r llywodraeth.

### Byffer tair blynedd

81. Mae p'un a ddylid addasu lefelau presennol y tariff i gyfrif am chwyddiant dros y tair blynedd diwethaf yn unig, neu gynnwys byffer hefyd (fel yn 2021) i gyfrif am chwyddiant a ragwelir hyd at 2027 wedi cael ei ystyried hefyd. O ran y safbwyntiau a wnaed yn yr ymatebion i'r Alwad am Dystiolaeth, roedd cynrychiolwyr hawlwyr a diffynyddion yn gwrthwynebu defnyddio byffer ar y cyfan, ond am resymau gwahanol.

82. Roedd yr hawlwyr a oedd yn gwrthwynebu defnyddio byffer o blaid naill ai adolygiad blynyddol neu fynegai a fyddai'n cysylltu'r tariff â chwyddiant er mwyn sicrhau ei fod yn cynyddu'n flynyddol. Maent yn dadlau y byddai hyn hefyd yn diogelu rhag cynnydd niweidiol annisgwyl mewn chwyddiant. Roedd diffynyddion, ar y llaw arall, yn gwrthwynebu'r byffer am eu bod yn teimlo ei fod yn cynyddu swm y taliad digolledu sydd ar gael yn artiffisial ac yn tanseilio'r arbedion cost.

83. Ar y cyfan, nid yw'r dadleuon a gyflwynwyd gan randdeiliaid ynghylch pam na ddylid defnyddio'r byffer yn argyhoeddiadol. Gallai proses adolygu flynyddol arwain at gylch o oedi cyn digolledu wrth i hawlwyr gael eu cynghori i aros cyn setlo er mwyn elwa ar gynnydd blynyddol. Mae'n debygol y bydd hyn yn cynyddu amseroedd setlo a chostau, a hynny heb ddim budd gwirioneddol i hawlwyr o bosibl. Cafodd y lefelau uchel diweddar o chwyddiant eu hachosi gan gyfuniad o amgylchiadau penodol, ac nid yw'r rhain yn debygol o ddigwydd yn rheolaidd.

### Opsiynau

84. Mae'r tariff presennol yn cynnwys byffer sy'n seiliedig ar chwyddiant. Bwriad hyn oedd sicrhau fyddai hawlwyr yn cael eu digolledu'n annigonol yn ystod y tair blynedd rhwng rhoi'r tariff ar waith a chynnal yr adolygiad hwn. Felly, mae dau opsiwn wedi cael eu hystyried, sef:

    a. **Opsiwn 1:** uwchraddio'r tariff i gyfrif am chwyddiant gwirioneddol hyd at fis Mai 2024 (dyddiad yr adolygiad hwn); neu

    b. **Opsiwn 2:** uwchraddio yn yr un ffordd ag yn opsiwn 1 ac yna ychwanegu byffer tair blynedd ychwanegol.

85. Er mwyn cynyddu'r tariff ar sail chwyddiant ar gyfer yr adolygiad hwn, rhaid i ni ddefnyddio'r tariff gwreiddiol llai'r byffer seiliedig ar chwyddiant fel man cychwyn. Heb y cam hwn, byddem yn cynnwys y chwyddiant a ragwelwyd yn wreiddiol a'r chwyddiant gwirioneddol sydd wedi digwydd dros y tair blynedd diwethaf, a fyddai'n gorddatgan effaith chwyddiant yn aruthrol.[15] Mae strwythur tariff 2021 a strwythur tariff sylfaen 2021 heb y byffer i'w gweld yn y tabl isod:

**Tabl 3**

| Hyd yr anaf | Gyda'r byffer | | Heb y byffer | |
|---|---|---|---|---|
| | Atchwip | Atchwip a niwed seicolegol | Atchwip | Atchwip a niwed seicolegol |
| 0 i 3 mis | £240 | £260 | £220 | £240 |
| 3 i 6 mis | £495 | £520 | £455 | £480 |
| 6 i 9 mis | £840 | £895 | £775 | £825 |
| 9 i 12 mis | £1,320 | £1,390 | £1,215 | £1,280 |
| Rhwng 12 a 15 mis | £2,040 | £2,125 | £1,875 | £1,955 |
| Rhwng 15 a 18 mis | £3,005 | £3,100 | £2,770 | £2,855 |
| Rhwng 18 a 24 mis | £4,215 | £4,345 | £3,880 | £4,000 |

86. Byddai defnyddio'r tariff 'heb y byffer' fel man cychwyn ac ychwanegu cynnydd gan ddefnyddio'r rhagolygon sydd ar gael ar gyfer CPI yn arwain at gynnydd o rhwng 8 a 9%. Byddai tariff diwygiedig sy'n defnyddio opsiwn 1 i gynyddu lefelau'r tariff yn unol â chwyddiant fel a ganlyn (mae'r cyfansymiau hefyd wedi'u talgrynnu i fyny neu i lawr i'r £5 agosaf):

**Tabl 4**

| Hyd yr anaf | Cynnydd yn unol â CPI | |
|---|---|---|
| | Atchwip | Atchwip a niwed seicolegol |
| 0 i 3 mis | £260 | £285 |
| 3 i 6 mis | £535 | £565 |

[15] Y tariff presennol ar gyfer anaf atchwip sy'n para llai na thri mis yw £240; y byffer a ychwanegir at y tariff gwreiddiol i gyfrif am chwyddiant yn y dyfodol yw £20 o'r swm hwn; mae cynyddu'r tariff hwn ar sail chwyddiant heb ddileu'r byffer yn rhoi swm newydd o £280, sef tariff gwreiddiol o £220, byffer presennol o £20 a chynnydd ar sail chwyddiant o £40. Mae hyn, i bob pwrpas, yn cyfrif am chwyddiant ddwywaith, sef unwaith fel chwyddiant a ragwelir ac unwaith fel chwyddiant gwirioneddol.

| **Hyd yr anaf** | **Cynnydd yn unol â CPI** | |
|---|---|---|
| | **Atchwip** | **Atchwip a niwed seicolegol** |
| 6 i 9 mis | £915 | £975 |
| 9 i 12 mis | £1,435 | £1,510 |
| 12 i 15 mis | £2,215 | £2,310 |
| 15 i 18 mis | £3,270 | £3,370 |
| 18 i 24 mis | £4,585 | £4,725 |

87. Byddai defnyddio'r tariff 'heb y byffer' fel man cychwyn ac ychwanegu cynnydd yn ogystal â byffer tair blynedd gan ddefnyddio'r rhagolygon sydd ar gael ar gyfer CPI yn arwain at gynnydd o rhwng 14 a 15%. Opsiwn 2 yw cynyddu'r ffioedd yn unol â chwyddiant fel y nodir uchod, ac yna ychwanegu byffer chwyddiant tair blynedd pellach ar ben hyn. Byddai hyn yn cynyddu lefelau'r tariff fel y dangosir isod (mae'r cyfansymiau hefyd wedi'u talgrynnu i fyny neu i lawr i'r £5 agosaf):

**Tabl 5**

| **Hyd yr anaf** | **Cynnydd yn unol â CPI** | |
|---|---|---|
| | **Atchwip** | **Atchwip a niwed seicolegol** |
| 0 i 3 mis | £275 | £300 |
| 3 i 6 mis | £565 | £595 |
| 6 i 9 mis | £965 | £1,025 |
| 9 i 12 mis | £1,510 | £1,595 |
| 12 i 15 mis | £2,335 | £2,435 |
| 15 i 18 mis | £3,445 | £3,550 |
| 18 i 24 mis | £4,830 | £4,975 |

**Casgliad**

Ar ôl ystyried y data sydd ar gael a'r safbwyntiau a gyflwynwyd gan amrywiol randdeiliaid, **rwyf wedi penderfynu y caiff symiau presennol y tariff atchwip eu cynyddu i gyfrif am chwyddiant gwirioneddol ers 31 Mai 2021.**

O ran p’un a ddylid defnyddio byffer chwyddiant ychwanegol ai peidio, fel y nodir uchod nid yw’r dadleuon a gyflwynwyd gan randdeiliaid yn erbyn defnyddio’r byffer yn argyhoeddiadol o ystyried y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. Gallai proses flynyddol arwain at gylch o oedi cyn digolledu gan y byddai hawlwyr yn aros i setlo er mwyn sicrhau’r dyfarniad mwyaf posibl, ac mae'n anochel y byddai hynny'n ychwanegu costau at y broses heb ddim mantais sylweddol i’r hawlydd.

Achoswyd y cylch chwyddiant diweddar gan set benodol o amgylchiadau ac nid yw’n rhywbeth sy’n digwydd yn rheolaidd. Dylai hawlwyr gael yr amddiffyniad y mae’r byffer yn ei gynnig, a thair blynedd yw’r cyfnod priodol o amser. Ar ben hynny, nid yw’r gwahaniaeth yn lefelau’r tariff pan ddefnyddir y byffer yn ddigon mawr i beri risg sylweddol i’r amcanion sy'n sail i’r diwygiadau.

Felly, **rwyf hefyd wedi penderfynu y bydd y tariff yn parhau i gael ei ddiogelu at y dyfodol drwy ddefnyddio CPI dros dair blynedd wedi'i dalgrynnu**, ac ar ôl hynny bydd yn destun yr adolygiad statudol nesaf.

# Crynodeb o benderfyniadau'r Arglwydd Ganghellor a'r camau nesaf

## Tariff Atchwip

88. I grynhoi, mae'r Rheoliadau'n pennu lefelau'r tariff, a hynny ar ffurf graddfa esgynnol o daliadau. Mae'r tariff wedi'i rannu, a gellir gwneud hawliadau naill ai am anaf atchwip yn unig neu am anaf atchwip a mân anaf seicolegol.

89. Ar ben hynny, caiff y ffigur priodol yn y tariff ar gyfer unrhyw hawliad penodol ei bennu ar sail hyd yr anaf atchwip hyd at uchafswm o ddwy flynedd. Mae anafiadau atchwip mwy difrifol sy'n para mwy na dwy flynedd y tu allan i gwmpas y tariff.

90. Rwyf wedi ystyried data'r diwydiant a ddarparwyd gan OIC, GLITEF a MedCo ynghyd â'r ymatebion gan randdeiliaid i'r Alwad am Dystiolaeth mewn perthynas â'r tariff atchwip ac rwyf wedi gwneud y penderfyniadau canlynol:

**Byddaf yn cadw strwythur ac elfennau presennol y tariff, gan gynnwys y bandiau hyd a'r rhaniad rhwng anafiadau atchwip ac anafiadau atchwip a mân anafiadau seicolegol.**

**Byddaf yn ystyried ffyrdd o roi arweiniad pellach mewn perthynas â diffinio mân anafiadau seicolegol.**

**Byddaf yn cynyddu symiau'r tariff i gyfrif am chwyddiant CPI 2021–2024 ac er mwyn ychwanegu byffer tair blynedd a fydd yn arwain at gynnydd o 14-15% ym mhob band.**

## Cynnydd i Ffioedd Barnwrol

91. Mae Rhan 1, adran 5 o Ddeddf 2018 yn caniatáu i'r llys benderfynu y dylid talu swm sy'n fwy na'r ffigur perthnasol yn y tariff am anafiadau atchwip dan amgylchiadau eithriadol. Y ffigur a bennwyd ar gyfer hyn oedd hyd at 20% yn dilyn trafodaeth yn ystod hynt Deddf 2018 ac fe'i rhoddwyd ar waith drwy'r Rheoliadau ym mis Mai 2021.

92. Cafwyd sylwadau gan randdeiliaid mewn perthynas â'r cynnydd, gan gynnwys sylwadau gan gynrychiolwyr hawlwyr a diffynyddion yn dweud nad oes diffiniad clir o'r hyn sy'n gyfystyr ag 'eithriadol'. Fodd bynnag, nid yw'n briodol i'r llywodraeth

bennu'r hyn a ystyrir yn 'eithriadol'. Mae pob achos yn wahanol, a rhaid i'r partïon a/neu'r llysoedd farnu pob hawliad yn ôl ei rinweddau.

93. Hefyd, cafwyd adborth o bob rhan o'r sector a oedd yn nodi bod hawlwyr heb gynrychiolaeth yn tueddu i wneud cais am gynnydd yn amlach. Mae'r ymddygiad hwn yn ddisgwyliedig, ond nid yw cynnydd yn nifer y ceisiadau yn golygu y byddant o reidrwydd yn cyrraedd y trothwy uchel ar gyfer 'eithriadoldeb' ac, fel y nodir uchod, dylid barnu pob cais yn ôl ei dystiolaeth a'i rinweddau. Penderfyniad i ddigolledwyr a llysoedd ei wneud ar sail y dystiolaeth a gyflwynir i ategu cais o'r fath yw hyn o hyd. Felly, rwyf wedi penderfynu ar y canlynol:

**Rwy'n fodlon ei bod yn dal yn briodol ychwanegu'r cynnydd at y tariff mewn achosion lle mae'r hawlydd yn dangos tystiolaeth o amgylchiadau neu anaf eithriadol. Felly, caiff yr uchafswm cynnydd o hyd at 20% ei ddefnyddio o hyd.**

## Tystiolaeth feddygol briodol ar gyfer setlo hawliad anaf personol sy'n gysylltiedig ag atchwip

94. Mae'r trydydd maes a gaiff sylw yn yr adolygiad hwn o adran 4 o'r Rheoliadau yn ymwneud â gwahardd cynigion i setlo cyn i dystiolaeth feddygol gael ei chyflwyno. Mae'r darpariaethau hyn yn pennu beth sy'n gyfystyr â thystiolaeth feddygol briodol a phwy all ei darparu.

95. Mae'r Rheoliadau'n darparu, pan fydd hawlydd yn byw yng Nghymru neu Loegr, neu'n dewis cael ei archwilio yng Nghymru neu Loegr, y bydd yn rhaid darparu tystiolaeth o'r anaf neu'r anafiadau atchwip mewn adroddiad meddygol cost benodedig gan arbenigwr meddygol achrededig a ddewisir drwy borth MedCo. Ar ôl ystyried y data ar y ffordd y mae'r broses ar gyfer cyflwyno adroddiadau meddygol wedi gweithio, rwyf wedi penderfynu ar y canlynol:

**Nid oes angen diwygiadau pellach i'r diffiniadau o adroddiadau meddygol a ddarperir yn y Rheoliadau ar hyn o bryd.**

## Y camau nesaf

96. Yn unol â'm cyfrifoldebau statudol, byddaf nawr yn cynnal ymgynghoriad â'r Arglwyddes Brif Ustus ar fy mhenderfyniadau. Rwy'n disgwyl i'r ymarfer hwn gael ei gwblhau mewn tua wyth wythnos. Caiff cadarnhad o ganlyniadau'r ymgynghoriad

hwn ei rannu â rhanddeiliaid cyn i'r Rheoliadau diwygiedig gael eu gosod er mwyn rhoi'r newidiadau hyn ar waith.

97. Wedyn, caiff y Rheoliadau hyn eu gosod a'u trafod yn y ddau Dŷ o dan y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol cyn gynted ag y bydd amser y Senedd yn caniatáu. Bydd y Rheoliadau diwygiedig yn gymwys i hawliadau a wneir yn sgil damweiniau sy'n digwydd ar neu ar ôl dyddiad cychwyn y Rheoliadau. Caiff rhagor o wybodaeth am yr amserlen weithredu derfynol ei chyhoeddi maes o law.

**Shabana Mahmood MP**
**Yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder**

# Manylion cyswllt, cwynion a chopïau ychwanegol

## Manylion cyswllt y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Os bydd gennych unrhyw sylwadau neu gwestiynau am unrhyw rai o'r materion sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn, cysylltwch â:

**Personal Injury Policy Team**
Ministry of Justice
Post point 5.25
102 Petty France
London SW1H 9AJ

**E-bost: whiplash-reform-team@justice.gov.uk**

## Cwynion neu sylwadau

Os bydd gennych gwynion neu sylwadau ynglŷn â'r adroddiad hwn, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

## Copïau ychwanegol

Mae rhagor o gopïau papur o'r adroddiad hwn ar gael o'r cyfeiriad hwn, ac mae hefyd ar gael ar-lein ar **gov.uk** yn**:**

https://www.gov.uk/government/publications/whiplash-reform-programme-information-and-faq

Ac ar wefan y senedd.

Gellir gwneud cais am gopïau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau eraill drwy e-bostio:

**whiplash-reform-team@justice.gov.uk**

# Y Gymraeg

## Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Rwyf wedi cwblhau Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ac mae'r adroddiad hwn ar gael yn llawn yn Gymraeg yn:

https://www.gov.uk/government/publications/whiplash-reform-programme-information-and-faq

E03136267

978-1-5286-4968-1